



## **ARTWORKS CYMRU YN GALW AM GYFRANOGWYR AR GYFER ASTUDIAETHAU ACHOS YMCHWIL A GWERTHUSO**

Yn dilyn ein Charette Ymchwil a Gwerthuso, mae ArtWorks Cymru yn gwahodd sefydliadau ac artistiaid i gymryd rhan yng nghanau nesaf y prosiect: Astudiaethau Achos.

Ar ôl edrych yn ofalus ar yr adborth o'r Charette, mae Tîm Ymchwil Cognis yn cynnig casglu astudiaethau achos i edrych ar y cwestiwn ymchwil dilynol:

### **Pam fod cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau?**

Maent angen eich mewnbwn er mwyn rhoi sylw i amrywiaeth o brosiectau. Byddant yn modelu'r dulliau gwerthuso (Cardiau Dull) a ymchwiliwyd yn y Charette i weddu i'ch anghenion. Mae hon yn broses iteraidd ac maent yn edrych am amrywiaeth o brosiectau, yn rhai tymor byr a hefyd dymor hir.

Mae croeso i bawb gynnig prosiect ar gyfer Astudiaeth Achos - hyd yn oed os nad oeddech yn y Charette. Y cyfan y gofynnwn amdano eich bod yn gweithio ar hyn o bryd ar brosiect celfyddydau cyfranogol a gyflwynir rhwng mis Hydref 2015 a mis Gorffennaf 2016.

### **Beth mae cymryd rhan mewn Astudiaeth Achos ArtWorks Cymru yn ei olygu?**

Mae'n dibynnu arnoch chi a'ch prosiect: efallai y bydd gennych ddi-ddordeb mewn myfyrio ar eich sgiliau, cyflwyno cynnig ac angen help wrth gynllunio. Efallai fod gennych eisoes ymchwil a gwerthuso sydd angen ei adolygu, efallai y bydd gennych ddi-ddordeb mewn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, edrych ar fwy o bartneriaethau, ymchwilio sgiliau newydd, datblygu dulliau a ffyrdd newydd, neu efallai mai dim ond awydd cymryd rhan sydd arnoch. Gofynnwn i chi gyflwynoun-rhyw beth fel awgrym.

Bydd tîm Cognis yn dechrau drwy gwrdd â chi i gael gwybodaeth am eich prosiect. Mae'n debyg y bydd y camau nesaf yn cynnwys:

- 1-3 o ymweliadau pellach
- cyfweiliadau (ar gamera ac ar bapur)
- tynnu fideo o ddatblygu eich prosiect
- profi rhai dulliau (yn defnyddio'r 'cerdyn dull' prototeip a gyflwynwyd yn y Charette)
- adborth a pheth gwaith dilynol yn ddiweddarach yn y flwyddyn
- cyhoeddi astudiaeth achos ar wefan ArtWorks Cymru

Bydd tîm Cognis yn gweithio o'ch amgylch chi a'ch amserlen, a'u nod yw cynorthwyo a pheidio ymyrryd tra'n canfod ychydig mwy amdano, y ffordd y gweithiwyd, y sawl sy'n cymryd rhan a'ch gwerthoedd. Bydd deilliannau o bob un o'r astudiaethau yn helpu i fod yn sylfaen i ymchwil newydd i arferion celfyddydau cyfranogol yng Nghymru.

### **Pa fudd gaf i o gymryd rhan?**

Mae'n debyg y bydd hyn eto yn wahanol i bawb; yn y termau mwyaf ymarferol drwy gymryd rhan cewch o leiaf:

- gofnod ddogfennol o'r astudiaeth achos drwy ddelweddau, fideos a thrawsgrifiadau cyfweiliad
- tudalen arbennig Astudiaeth Achos ar wefan newydd ArtWorks, yn rhoi manylion eich prosiect a'ch gwaith
- amser gyda thîm ymchwil a dylunio neilltuoel



**ArtWorks**  
Cymru

**Developing Practice in Participatory Settings**  
[www.artworkscymru.co.uk](http://www.artworkscymru.co.uk)

### **Datganiadau Diddordeb ar gyfer Astudiaethau Achos ArtWorks Cymru**

I ddatgan diddordeb ar gyfer Astudiaeth Achos ArtWorks Cymru, anfonwch ddogfen/neges e-bost yn rhoi'r manylion dilynol os gwelwch yn dda:

- Enw'r prosiect
- Amserlen y prosiect
- Dull celf a chyd-destun y prosiect
- Y nifer a ddisgwyliwch i gymryd rhan
- Lleoliad y prosiect
- Paragraff yn disgrifio'r prosiect
- Eich manylion cyswllt

**Y dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb yw 16 Hydref 2015 gyda'r astudiaethau yn dechrau cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny.**

Anfonwch eich datganiadau diddordeb i [leahmclaughlin@hotmail.com](mailto:leahmclaughlin@hotmail.com) os gwelwch yn dda.